15 Rhagfyr 2011

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn Lluosfiliwnydd* (*yn nhermau nifer yr ymwelwyr!)

Hysbysrwydd yn dechrau….

Mae ystadegau o Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth, adnodd cymunedol ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn dangos y cafwyd dros chwe miliwn a hanner o ymwelwyr â'r Ganolfan yn ystod y 10 mlynedd ers i'r Ganolfan gael ei hymestyn a'i hail ddatblygu yn y flwyddyn 2000. Cost y prosiect gwreiddiol oedd £4.3 miliwn ac fe'i cefnogwyd yn rhannol trwy Gronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a gyfrannodd £2.6miliwn.

Bu'r prosiect gwreiddiol hwn, ynghyd â phrosiect diweddarach i godi cyfres o 18 o Unedau Creadigol ar gyfer artistiaid a chwmniau, yn gymorth i greu Canolfan Gelf sydd ag amrediad o gyfleusterau sydd heb eu hail yn y rhan fywaf o'r DU.

Ers y flwyddyn 2000, yn ôl y ffigyrau, bu

- **dros filiwn** o bobl yn mynychu perfformiadau a gweithgareddau
- **dros filiwn** o bobl yn cymryd rhan mewn cyrsiau a gweithdai cymunedol
- **dros dau filiwn** o bobl yn ymweld â'r rhaglen arddangosfeydd cyfoes
- **dros chwe miliwn a hanner** o bobl yn ymweld â'r Ganolfan yn gyffredinol

Dywedodd Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau, Alan Hewson:

'Ein gweledigaeth ar gyfer y Ganolfan erioed oedd cred sylfaenol mewn pwer y celfyddydau i drawsffurfio cymdeithas ac i newid a chyfoethogi bywydau ac 'rydym yn gweithio'n galed i ddenu gymaint o bobl â phosibl i fyd y celfyddydau - yn hen ac yn ifanc ac o bob cefndir. Mae'n bleser llwyr i weld gymaint o bobl yn defnyddio'r Ganolfan ac i weld y manteision eithriadol a ddaeth yn sgil y buddsoddiad a wnaethpwyd yn 2000. Wrth i ni agosau at ein penblwydd yn 40 oed mae'n wych i weld y mudiad yn parhau i ffynnu a datblygu.'

Dangosodd arolwg o ddylanwad y Ganolfan ar yr economi, a gwblhawyd yn 2010 gan y cwmni Econactive sydd â'i bencadlys yng Nghaerdydd, bod Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn cyfrannu £10.65 miliwn bob blwyddyn tuag at yr economi yng Nghymru ac yn cefnogi dros 175 o swyddi, gan ei gwneud yn fudiad blaenllaw yn sector y diwydiant creadigol. Dangosodd yr adroddiad bod y Ganolfan yn cynhyrchu dros £10 yn yr economi am bob £1 o nawdd cyhoeddus a dderbyniwyd, gyda'r rhan fwyaf o'r effaith hyn yn digwydd yn economi Canolbarth Cymru.

Mae'r ffigyrau hyn a'r cynnydd cyson yn y niferoedd sy'n mynychu'r Ganolfan yn dangos y gall sector y celfyddydau creadigol chwarae rhan allweddol wrth sicrhau tyfiant ecomomaidd hyd yn oed yn yr hinsawdd gyllidol presennol.

DIWEDD/

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn adran o Brifysgol Aberystwyth ac yn Fudiad a noddir yn Rhanbarthol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae ffotograffau o'r Ganolfan ar gael.
Gellir trefnu cyfweliadau gydag Alan Hewson, Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Louise Amery lla@aber.ac.uk

Cymerwyd y ffigyrau allan o ystadegau blynyddol swyddogol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2000 – 2011

Paratowyd yr Adroddiad ar Ddylanwad y Ganolfan ar yr Economi gan gwmni Econactive ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Mai 2010
Cysylltwch â Calvin Jones: info_econactive@yahoo.co.uk